**16eg Cyfarfod Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru**
**Dydd Mercher, 11 Gorffennaf 2018**
**Ystafell Gynadledda B, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**
**Cofnodion**

---

**AELODAU**

**Llywodraeth Cymru**

Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus– Cadeirydd
Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Y Cyng. Debbie Wilcox, Arweinydd CLlLC, (Casnewydd)
Y Cyng. Anthony Hunt, Llefarydd Cyllid CLlLC (Torfaen)
Y Cyng. Andrew Morgan, Swyddog Llywyddu CLlLC (Rhondda Cynon Taf)
Y Cyng. Paul Miller (Sir Benfro)

**YN BRESENNOL**

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**

Rachel Maycock – Cynghorydd Arbennig
Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol
Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid a Phartneriaethau Gweithlu Llywodraeth Leol
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid Strategol Llywodraeth Leol

**Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Steve Thomas CBE – Prif Weithredwr, CLlLC
Chris Llewelyn – Dirprwy Brif Weithredwr, CLlLC
Nigel Aurelius – Cynrychiolydd Cymdeithas Trysoryddion Cymru

**Comisiynwyr Heddlu a Throseddu**

Y Gwir Anrh. Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
Darren Garwood – Swyddog Cyllid, Heddlu Gwent

**YMDDIHEURIADAU**

Y Cyng. Aaron Shotton, Dirprwy Arweinydd CLlLC (Sir y Fflint)
Y Cyng. Peter Fox OBE (Sir Fynwy)
Y Cyng. Dyfrig Siencyn, (Gwynedd)

**Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau**

1. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (Ysgrifennydd y Cabinet) yr aelodau i 16eg cyfarfod yr Is-grŵp Cyllid.

**Eitem 2: Cofnodion a materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol (Papur 1)**

2. Cytunwyd i dderbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf fel gwir gofnod. Cadarnhawyd bod y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol wedi eu cwblhau.

**Eitem 3: Adroddiad Cynnydd yr Is-grŵp Dosbarthu (Papur 2)**

3. Nododd Steve Thomas bryderon ynghylch pa mor gyfnewidiol yw'r data am brydau ysgol am ddim ac effeithiau'r diwygiadau lles. Cadarnhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru y byddai'r data am brydau ysgol am ddim yn seiliedig ar gyfartaledd dros dair blynedd er mwyn lleihau effeithiau hynny, a bod effeithiau'r diwygiadau lles yn cael eu monitro'n agos.

4. Gofynnodd y Cyng. Hunt sut y byddai'r cyllid gwaelodol yn cael ei ddarparu. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n trafod hyn gyda'i swyddogion yn ystod y misoedd nesaf.

5. Dywedodd y Cyng. Wilcox fod awdurdodau lleol yn fodlon cydweithio'n agosach â Llywodraeth Cymru.

6. **CAM GWEITHREDU: Swyddogion CLlLC a Llywodraeth Cymru i ystyried cydweithio'n agosach.**

**Eitem 4: Diweddariad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**

7. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid bod £150,000 o Gronfa'r Trefniadau Pontio Ewropeaidd wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer CLlLC.

8. Dywedodd y byddai mwy o ansicrwydd o ran 2019-20, gan y byddai Llywodraeth y DU yn cynnal Adolygiad o Wariant yn 2019. Oherwydd hynny, roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl na fyddai ond yn gallu cyhoeddi cyllideb ar gyfer un flwyddyn yn unig o ran 2019-20, gyda'r gyllideb ddrafft yn cael ei chyhoeddi ar 2 Hydref a'r Gyllideb derfynol ar 18 Rhagfyr. Roedd Brexit yn parhau i greu rhagor o ansicrwydd yn y broses o bennu'r gyllideb.

9. Yn ddiweddar, roedd Llywodraeth Cymru wedi dechrau ymgynghori'n ffurfiol ar gymhwystra ar gyfer brydau ysgol am ddim yng ngoleuni'r newidiadau i gredyd cynhwysol.

10. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid grynodeb o'r datblygiadau a oedd wedi digwydd yn sgil diwygio trethi lleol, gan dynnu sylw at y cyllid ychwanegol a roddwyd i awdurdodau lleol at ddibenion rhyddhad yn ôl disgresiwn. Roedd ef a'i swyddogion wrthi'n gweithio gyda llywodraeth leol i leihau lefelau osgoi ardrethi annomestig.

11. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid fod anghysondeb o ran y dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd mewn perthynas â dyledion y dreth gyngor mewn gwahanol rannau o Gymru. Roedd o'r farn bod angen mwy o ymgysylltu gwleidyddol er mwyn sicrhau bod effeithiau ehangach rheoli dyled yn cael eu hystyried.

12. Cododd y Cyng. Morgan y mater o esemptiadau rhag y dreth cyngor i'r rheini sy'n gadael gofal. Byddai CLlLC yn pwyso am fwy o gydweithredu rhwng awdurdodau lleol, yn enwedig ynghylch rhoi esemptiad rhag y dreth gyngor i'r rheini sy'n gadael gofal.

13. **CAM GWEITHREDU: Pwyllgor Gweithredol CLlLC i ystyried materion sy'n ymwneud â rheoli dyledion treth gyngor, ochr yn ochr â'r deunydd ategol a ddarperir gan swyddogion Llywodraeth Cymru.**

**Eitem 5: Pwysau ar Gyllidebau Llywodraeth Leol**

14. Nododd Steve Thomas y prif ffactorau sy'n rhoi pwysau ariannol ar awdurdodau lleol, a dywedodd y Cyng. Hunt fod y pwysau o ddarparu gofal cymdeithasol yn lleihau gallu'r cynghorau i ddarparu gwasanaethau eraill. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn cydnabod bod awdurdodau wedi gwneud lawer yn unigol a chyda'i gilydd, ond roedd yn gobeithio y byddent yn gallu gwneud mwy.

15. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ei fod wedi cymryd rhan mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch cap benthyca'r Cyfrif Refeniw Tai. O ganlyniad, cyfanswm diwygiedig cap y Cyfrif Refeniw Tai yw £73.5m.

**Eitem 6: Diweddariad gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

16. Cafodd y papur ei gyflwyno a'i nodi

**Eitem 7: Unrhyw Fater Arall**

17. Ni nodwyd unrhyw fusnes arall.